Rhif: WG27618

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

# Dogfen Ymgynghori

## Cynigion yn ymwneud â Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: 1 Chwefror 2016
Camau I'w cymryd: Ymatebion erbyn 25 Ebrill 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn ar y Datganiad drafft Cyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 25 Ebrill 2016. Gallwch ymateb drwy unrhyw un o’r ffyrdd a ganlyn:<br>**e-bost** Llenwch y ffurflen ymgynghori yn Atodiad A a'i hanfon i: planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk<br>(Dylech gynnwys "Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd" yn y llinell pwnc)<br>**post** Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad A a'i hanfon i:<br>Ymgynghoriad Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd<br>Y Gangen Cynlluniau Datblygu<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.** |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Y Gangen Cynlluniau Datblygu<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ.<br>e-bost: planconsultations-a@cymru.gsi.gov.uk<br>ffôn: 02920823744 02920826657 |

**Diogelu Data**

Sut y byddwn yn defnyddio’r farn a’r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy’n gweithio ar y materion y mae’r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae’n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o’r ymatebion i’r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Mae hynny’n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.

Mae’n bosibl y bydd yr enwau a’r cyfeiriadau y byddwn wedi’u cuddio yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach, er nad yw hynny’n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i’r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny’n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae’r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a’i gyfeiriad, bydd hynny’n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â’u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â’r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

**Cynnwys**


1. **Pwrpas yr ymgynghoriad hwn**
2. **Sicrhau ymgysylltiad wrth baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**
3. **Ein Dull Gweithredu arfaethedig**
4. **Cwestiwn Allweddol**

**Atodiad A – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

# 1. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y datganiad drafft, Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

1.2 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn sefydlu fframwaith statudol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun defnydd tir cenedlaethol a'i diweddaru, sef Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Bydd y FfDC yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu rôl stiwardiaeth weithredol a rhoi sylw i faterion defnydd tir o arwyddocâd cenedlaethol drwy'r system gynllunio.

1.3 Bydd y Fframwaith yn nodi'r polisïau cynllunio cenedlaethol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a bydd yn mynegi'n ofodol amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol mae'r Ddeddf Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae'r ddeddf yn datgan fel a ganlyn:-

**60A Preparation of Framework: statement of public participation**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a statement of public participation setting out their policies relating to the consultation to be carried out in preparing the National Development Framework for Wales.

(2) In particular, the statement must include provision about—

(a) the form that the consultation will take,

(b) when the consultation will take place, and

(c) the steps that will be taken to involve members of the public in the preparation of the Framework.

(3) The statement must provide that, as part of the consultation, the Welsh Ministers will—

(a) publish a draft of the Framework, and

(b) allow a period of 12 weeks beginning with the publication of the draft Framework during which any person may make representations with regard to the draft.

(4) The Welsh Ministers may revise the statement, and must publish the statement as revised.

1.4 Bydd y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwreiddio’r broses ymgysylltu ymhob cam o ddatblygiad y Fframwaith, ac yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gwybod sut a phryd i ymgysylltu â’r broses. Gofynnir am eich barn am ddull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru.

## Sicrhau ymgysylltiad wrth baratoi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

2.1 Mae ymgysylltiad rhanddeiliaid wrth baratoi cynlluniau defnydd tir yn egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu yn y system gynllunio. Mae'n hanfodol fod system dan arweiniad cynlluniau yn paratoi cynlluniau sy'n ceisio sicrhau consensws ac sy'n cael eu datblygu mewn ffordd agored a thryloyw. Dylai pawb gael y cyfle i gael gwybod bod cynllun yn cael ei baratoi a chyfrannu at y gwaith os dymunant. O'r herwydd, mae gofynion statudol yn bodoli ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori pan fydd Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a'r FfDC yn cael eu paratoi.

2.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut y gall godi ymwybyddiaeth o'r FfDC, yn arbennig yn ystod camau datblygu allweddol a sut y gall sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael y cyfle i ymgysylltu a chyfranogi. Byddai'n croesawu barn gan bob parti am ei dull gweithredu arfaethedig.

### Hwyluso ymgysylltu

2.3 Wrth ddatblygu ei dull gweithredu, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried nifer o faterion a all ddylanwadu ar sut y mae pobl yn ymgysylltu â'r broses o ddatblygu'r FfDC, ac a ydynt yn gwneud hyn.

2.4 Am yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r system gynllunio wedi canolbwyntio ar gynlluniau datblygu lleol. Mae'r rhain yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion ar draws bwrdeistrefi a siroedd. Mae'r Ddeddf Cynllunio wedi cyflwyno Cynlluniau Datblygu Strategol rhanbarthol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Mae hyn yn newid mawr i'r system gynllunio a fydd yn arwain at baratoi cynlluniau datblygu ar lefel uwch na lefel lleol. Bydd yn rhaid i wneuthurwyr cynlluniau a rhanddeiliaid feddwl ac ymgysylltu mewn ffyrdd newydd ac ystyried materion y tu hwnt i rai lleol.

2.5 Bydd gwella ymwybyddiaeth o'r FfDC newydd a'r broses o'i baratoi yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Bydd yn bwysig fod y camau ymgynghori ffurfiol yn cael eu hategu gan arweiniad clir ar bwrpas y FfDC; ei rôl; a sut y gall rhanddeiliaid ddylanwadu ar ei ddatblygiad. Mae hefyd yn bwysig fod cefnogaeth a chyngor anffurfiol ar gael y tu allan i ymgyngoriadau cyhoeddus allweddol, fel y gall rhanddeiliaid ddysgu rhagor am y FfDC ar draws y broses gy fan ac yn barod i ymgysylltu ar y prif gamau. Mae'r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft yn cynnwys dulliau i gefnogi ymgysylltu yn ystod y prif gamau ac yn barhaus gydol y broses.

2.6 Wrth ystyried y materion hyn i gyd, dylanwadwyd ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu drwy ystyried sut y gall sicrhau:-

- y gall rhanddeiliaid gyfrannu at ddatblygiad y rhaglen ymgysylltu;
- bod ymgysylltu yn gynhwysol, yn agored ac yn dryloyw;
- bod gwybodaeth yn hygyrch; a
- bod adborth ar gael ar y sylwadau a gafwyd gydol y broses.

## Sicrhau bod rhanddeiliaid yn cyfrannu at ddatblygiad y rhaglen ymgysylltu

2.7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid gyfrannu at ddatblygiad y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Ceir cyfres o gwestiynau yn Adran 4 y byddem yn croesawu eich barn arnynt.

## Sicrhau bod ymgysylltu yn gynhwysol, yn agored ac yn dryloyw

2.8 I sicrhau bod rhanddeiliaid yn gwybod pryd y dylent ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r FfDC, mae'r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft yn cynnwys amserlen 11 cam ar gyfer paratoi'r FfDC. Mae hon yn cynnwys y dyddiadau ar gyfer pob cam ac yn nodi'r prif gyfnodau ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd. Mae'n bwysig fod rhanddeiliaid yn gwybod pryd y mae angen iddynt ddod yn gysylltiedig ac yn cynllunio ymlaen i wneud yn siŵr fod yr amser a'r adnoddau ganddynt i ymgysylltu.

## Sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch

2.9 Bydd yr holl dystiolaeth a dogfennau allweddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. I sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb, cânt eu hategu gan wybodaeth a fydd yn crynhoi mewn iaith syml y prosesau a'r prif gysyniadau.

## Sicrhau bod adborth ar gael ar y sylwadau a gafwyd gydol y broses.

2.10 Yn ystod pob cyfnod ymgynghori, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu adroddiad d am y sylwadau a gafwyd, sut y cafodd y rhain eu hystyried a sut y maent wedi dylanwadu ar ddatblygiad y FfDC. Mae'r adran diogelu data ar ddechrau'r ddogfen hon yn esbonio sut yr ymdrinnir â sylwadau.

## 3 Ein dull gweithredu arfaethedig

3.1 Wrth ystyried yr amseroedd ar gyfer paratoi’r FfDC, rydym wedi seilio amserlen ddrafft ar y broses sy’n gysylltiedig â'r Cynlluniau Datblygu Lleol, gan weithio ar sail o 4 blynedd fwy neu lai i’w mabwysiadu a chan ymgorffori tri cham penodol o ymgynghori â'r cyhoedd (12 wythnos yr un).

| Cam | Amcangyfrif amser |
|---|---|
| 1. Paratoi Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd | Hydref 2015 - Ionawr 2016 |
| 2. Cyhoeddi ac ymgynghori ar y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd (12 wythnos) | Chwefror - Ebrill 2016 |
| 3. Ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad ar y Datganiad ynghylch Ymgynghori â'r Cyhoedd a pharatoi adroddiad ymgynghori | Mai - Mehefin 2016 |
| 4. Datblygu'r weledigaeth, yr amcanion a’r opsiynau | Gorffennaf 2016 – Mai 2017 |
| 5. Cyhoeddi ac ymgynghori ar y prif faterion, yr opsiynau a’r opsiwn a ffafrir, gyda chefnogaeth adroddiadau ac asesiadau amgylcheddol (12 wythnos) | Mehefin - Medi 2017 |
| 6. Ystyried ymatebion i’r ymgynghoriad ar y prif faterion, yr opsiynau a’r opsiwn a ffafrir a pharatoi adroddiad ymgynghori | Hydref - Rhagfyr 2017 |
| 7. Paratoi FfDC drafft | Ionawr – Mehefin 2018 |
| 8. Ymgynghori ar y FfDC drafft (12 wythnos) | Gorffennaf - Hydref 2018 |
| 9. Ystyried ymatebion i’r FfDC drafft a pharatoi adroddiad ymgynghori | Tachwedd 2018 - Mawrth 2019 |
| 10. Y Cynulliad yn ystyried y FfDC (60 diwrnod 'eistedd’) | Ebrill - Gorffennaf 2019 |
| 11. Cyhoeddi’r FfDC | Hydref 2019 |

3.2 Mae Llywodraeth Cymru o’r farn fod dull gweithredu deuol ar gyfer ymgysylltu yn briodol. Bydd rhaglen barhaus o weithgareddau a gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol i gefnogi prif gamau yr ymgynghori â’r cyhoedd.

3.3 I sicrhau bod cyngor a chefnogaeth ar gael yn ystod y broses o baratoi’r FfDC, byddwn yn defnyddio’r canlynol:

- ein gwefan
- llinell gymorth a chymorth dros e-bost
- y cyfryngau cymdeithasol
- erthyglau a’r wasg
- cylchlythyr
- cronfa ddata o gysylltiadau

i ddarparu gwybodaeth a'r newyddion diweddaraf am y FfDC a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r rheini sy’n awyddus i gyfranogi.

3.4. Bydd proses paratoi’r FfDC yn cynnwys tri chyfnod 12 wythnos o ymgynghori. Bydd y camau hyn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid a’r cyhoedd adolygu tystiolaeth a dogfennau allweddol a chyflwyno sylwadau ffurfiol ar y broses. Yn ystod y camau hyn, mae’n bwysig fod ymwybyddiaeth o'r ymgyngoriadau’n cael ei chodi a bod rhanddeiliaid yn gallu cael gafael ar wybodaeth a rhoi sylwadau i ni. I gefnogi hyn, byddwn yn:-

- cyhoeddi tystiolaeth a dogfennau allweddol
- trefnu a mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau i randdeiliaid
- cynnal sesiynau galw-heibio ledled Cymru
- cydlynu strategaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth.

3.5 Er y bydd cam 3 hefyd yn cynnwys 12 wythnos o ymgynghori â'r cyhoedd, bydd yr ymgynghoriad cychwynnol hwn yn canolbwyntio ar y broses ar gyfer paratoi’r FfDC a'r dull o ymgysylltu â'r cyhoedd yn unig. Ni fydd yn rhoi sylw i faterion cynllunio nac yn cyflwyno tystiolaeth ar faterion yn ymwneud â defnydd tir. Ni fydd yn rhaid cael yr un lefel o weithgareddau ymgynghori ar gyfer cam 3 ag ar gyfer camau 5 ac 8.

# 4 Cwestiynau Allweddol

4.1 Gofynnir am farn ar y cwestiynau canlynol:-

| | |
|---|---|
| C1 | Ydych chi'n cytuno ag amserlen paratoi’r FfDC? |

| | |
|---|---|
| C2 | Ydych chi’n cytuno bod tri chyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn ddigonol? |

| | |
|---|---|
| C3 | Ydych chi’n cytuno bod y cyfnodau ymgynghori â'r cyhoedd yn y lle iawn i sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o ddatblygu’r FfDC? |

| | |
|---|---|
| C4 | Ydych chi’n cytuno â'r dulliau i gefnogi ymgysylltiad parhaus? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio? |

| | |
|---|---|
| C5 | Ydych chi’n cytuno â'r dulliau i gefnogi ymgysylltu yn y camau allweddol? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio? |

| | |
|---|---|
| C6 | A oes unrhyw grwpiau/cyrff ychwanegol y gellid eu hychwanegu at y rheini a restrir yn Atodiad 1 y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft? |

| | |
|---|---|
| C7 | A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft? |

## Atodiad A – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## FFURFLEN YMGYNGHORI

## Cynigion yn ymwneud â’r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Rydym am gael eich barn ar y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â’r Cyhoedd drafft ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Cymru. Mae’r datganiad yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwreiddio’r broses ymgysylltu ymhob cam o ddatblygiad y FfDC, a bydd yn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gwybod sut a phryd i ymgysylltu â’r broses. Gofynnir am eich barn am y dull gweithredu arfaethedig.

Cyflwynwch eich sylwadau os gwelwch yn dda erbyn 25 Ebrill 2016.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch:

**Planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk** neu ffonio: 029 2082 3744 / 02920826657

| **Diogelu Data** |
|---|
| Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i’ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth. |

| **Cyfrinachedd** |
|---|
| Mae ymatebion i ymgyngoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.<br><br>**Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeirad gael eu dangos ar unrhyw ddogfen a gynhyrchwn, nodwch hynny yma** ☐<br><br>**Os nad ydych am i'ch ymateb gael ei ddangos ar unrhyw ddogfen a gynhyrchwn, nodwch hynny yma** ☐ |

**FFURFLEN YMGYNGHORI**

| **Cynigion yn ymwneud â'r Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)** | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad** | | |
| **Enw** | | |
| **Sefydliad** | | |
| **Cyfeiriad** | | |
| **Cyfeiriad e-bost** | | |
| **Ffôn** | | |
| **Math**<br><br>*(dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda)* | Busnesau | ☐ |
| | Awdurdod Cynllunio Lleol | ☐ |
| | Asiantaeth Llywodraeth/Sector Cyhoeddus arall | ☐ |
| | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau Diddordeb | ☐ |
| | Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cydweithfeydd, mentrau, crefyddol, mudiadau dielw) | ☐ |
| | Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod) | ☐ |

| C1 | Ydych chi'n cytuno ag amserlen paratoi'r FfDC? | X |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C2 | Ydych chi'n cytuno bod tri chyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn ddigonol? | X |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C3 | Ydych chi’n cytuno bod y cyfnodau ymgynghori â'r cyhoedd yn y lle iawn i sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at y broses o ddatblygu’r FfDC? | X |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C4 | Ydych chi’n cytuno â'r dulliau i gefnogi ymgysylltiad parhaus? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio? | X |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C5 | Ydych chi'n cytuno â'r dulliau i gefnogi ymgysylltu yn y camau allweddol? A oes dulliau ychwanegol y dylid eu defnyddio? | X |
|---|---|---|
| | Cytuno | |
| | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | |
| | Anghytuno | |
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C6 | A oes unrhyw grwpiau/cyrff ychwanegol y gellid eu hychwanegu at y rheini a restrir yn Atodiad 1 y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft? | X |
|---|---|---|
| Sylwadau eraill | | |
| | | |

| C7 | A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud ar y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd drafft? | X |
|---|---|---|
| **Sylwadau eraill** | | |
| | | |

**Sut i ymateb**

Anfonwch eich sylwadau erbyn 25 Ebrill 2016 gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

| E-bost | Post |
|---|---|
| Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i:<br>Planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk<br>[Byddwch cystal â rhoi **Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd** yn y llinell pwnc] | Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i:<br>Ymgynghoriad Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd<br>Y Gangen Cynlluniau<br>Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |

| Gwybodaeth ychwanegol |
|---|
| Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn,<br>Anfonwch e-bost i: Planconsultations-a@wales.gsi.gov.uk<br>Ffoniwch: 029 2082 3744 / 029 2082 6657 |